

# Cynllun Houseproud

**RHOI HELP LLAW GYDA GWAITH AILWAMPIO,  
GWELLIANAU, ATGYWEIRIO AC ADDASIADAU**



# CYNLLUN HOUSEPROUD

## MAE CYNLLUN HOUSEPROUD Y CYNGOR LLEOL YN RHOI HELP LLAW Â GWELLIANNAU, ATGYWEIRIADAU AC ADDASIADAU.

Rydym yn gwybod y gall meddwl am waith adeiladu fod yn ddigon brawychus heb sôn am beryglon adeiladwyr ffug a phryderon ynghylch sut i dalu am y gwaith.

Mae cynllun y Cyngor yn sicrhau bod unrhyw welliannau, atgyweiriadau, ac addasiadau yn y cartref yn cael eu gwneud gan roi tawelwch meddwl i'r perchnogion/preswylwyr. Mae Houseproud yn cynnig ffordd ddiogel a hawdd i fynd i'r afael â thasgau ac yn sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud mewn modd proffesiynol a gyda chyn lleied o drafferth â phosibl, gyda'r nod o helpu preswylwyr i fyw'n ddiogel ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn dyrannu Swydddog Houseproud eich hun i chi a fydd yn ymweld â'ch cartref i drafod gyda chi pa welliannau, gwaith trwsio neu addasiadau yr hoffech a p'un a ydych yn gymwys i gael help dan y cynllun hwn neu unrhyw gynllun arall.

Adran Tai ac Economi  
Ffordd Rhuthun  
Wrecsam  
LL13 7TU

**Ffôn:** 01978 298993  
**Ffacs:** 01978 298993  
**Ebost:** [housing@wrexham.gov.uk](mailto:housing@wrexham.gov.uk)

Yna bydd eich Swydddog Houseproud yn asesu pa waith y mae ei angen a faint fydd y gost debygol i chi. Ar ôl cytuno ar sut y bydd y byddwch yn talu am y gwaith, bydd y Swydddog Houseproud yn llunio manyleb ac yn cynhyrchu dogfennau tendr ar gyfer derbyn pris gan adeiladwyr cymeradwy ar restr y Cyngor.

Ar ôl cymeradwyo'r prosiect, bydd y Cyngor yn dweud wrth yr adeiladwr y caiff ddechrau ar y gwaith. Pan fydd y gwaith wedi ei gwblhau, bydd y Swydddog Houseproud yn trefnu archwiliad terfynol i sicrhau bod y gwaith wedi ei wneud yn foddhaol. Bydd yr adeiladwr yn rhoi anfoneb i chi i chi dalu eich adeiladwr yn uniongyrchol.

# TALU'R FFIOEDD

Os bydd y cleient yn dymuno bwrw ymlaen â'r gwaith drwy dendr, bydd gofyn iddynt lenwi a llofnodi 'ffurflen caniatâd cynllun Houseproud' cyn y caiff y contractwr ei awdurdodi i ddechrau ar y gwaith.

Mae cost gwaith gweinyddu ar gyfer gwaith hwyluso 2.5% o swm y contract neu, lle mae swm y contract yn £2,000:00 neu lai bydd lleiafswm tâl o £50.00 yn berthnasol. Bydd ffi ond yn berthnasol os yw'r cleient yn dewis parhau â'r gwaith yn dilyn cyflwyno tendrau.

Os oes angen cryn dipyn o waith a cheisiadau Rheoli Adeiladu a Cheisiadau Cynllunio, y gost dechnegol yw 8% o swm y contract.

Gall 2.5% o'r gost hwn yn daladwy ar gyfer paratoi cynlluniau gan y pensaer, a

gweddill yn 5.5% yn daladwy os bydd gwaith ffisegol yn mynd rhagddo.

## Mae'r cleient yn gyfrifol am yr holl gostau ategol a chysylltiedig, gan gynnwys:

- Rheoli Adeiladau
- Cynllunio
- Peirianwyr Strwythurol
- Adroddiadau Arbenigol

Bydd adran gyllid yr Awdurdod Lleol yn anfonebu'r cleient yn uniongyrchol ar gyfer talu ffioedd y Cyngor.

## Talu Cost Y Gwaith

Os yw'r cleient yn dymuno bwrw ymlaen â'r gwaith tendr, bydd yn ofynnol i'r cleient lenwi 'ffurflen derbyn tendr'. Ar ôl cwblhau'r gwaith a gytunwyd, bydd y contractwr yn anfonebu'r cleient yn uniongyrchol am daliad. Bydd eich taliad yn unol â gwaith yn cael eu cwblhau i'ch bodlonrwydd a'i ardstio gan reolwr prosiect y cyngor.

---

Mae Safonau Masnach Wrecsam eisiau i chi riportio trosedd ar stepen y drws, twyll a galwyr diwahoddiad. Mae unigolion, masnachwyr twyllodrus, Sipsiwn a Theithwyr sy'n gwerthu gwasanaethau ar stepen drws sydd yn ddieisiau, diangen, drud, cael eu cam-ddisgrifio ac yn aneffeithiol. Efallai cewch alwyr diwahoddiad heb unrhyw rybudd, ddim yn cael amser i feddwl, efallai bydd rhywun yn dweud wrthyfch fod angen gwaith adeiladu sydd angen sylw brys, neu'n esgus cael eich wynebu gan swyddog 'ffug'. Mae hyn yn drosedd y mae Safonau Masnach yn ei ymchwilio.

# GWARANT

Ni fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cyhoeddi gwarant ar gyfer gwaith a weinyddir drwy'r cynllun Houseproud. Os bydd ar y cleient angen y sicrwydd yma, gellir trefnu hynny am gost ychwanegol yn uniongyrchol gyda'r adeiladwr.

Bydd yr holl waith yn cael ei gyhoeddi i gontractwyr sy'n aelodau o gydff statudol perthnasol yn y diwydiant adeiladu, a chanddynt enw da am wneud gwaith i safon uchel ac am ofal cwsmer da.

Mae'r holl gontractwyr yn cael eu monitro'n barhaus i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r holl amodau ar bob cynllun a gwblhawyd.

## Drefnu apwyntiad gyda Swyddog Houseproud:

Adnewyddu Tai  
Adran Gwasanaethau Tai  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam  
Ffordd Rhuthun  
Wrecsam  
LL13 7TU

**Rhif Ffôn:** 01978 298993

**Ffacs:** 01978 298993

**Ebost:** [housing@wrexham.gov.uk](mailto:housing@wrexham.gov.uk)



Mae'r llinell gymorth Gwasanaeth Defnyddwyr Cyngor ar Bopeth yn darparu cyngor am ddim, cyfrinachol a diduedd ar faterion defnyddwyr (rhwng 9am a 5pm dydd Llun i ddydd Gwener) ar 03454 04 05 05 (Cymraeg) a 03454 04 05 06 (Saesneg).



Ar gyfer amgylchiadau nad yw'n frys - taflenni neu guro ar ddrysau - i rybuddio eich tîm plismona yn y gymdogaeth, Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a Safonau Masnach, cysylltwch â 101. Os ydych yn teimlo eich bod wedi cael eich dychryn, eich bygwth gan ymddygiad ymosodol neu dactegau gwerthu, neu fod rhywun yn ceisio cael mynediad i'ch cartref, ffoniwch 999.



Cofrestrwch i gael negeseuon rhybudd yn eich ardal gyda [watch@owlcam.org](mailto:watch@owlcam.org) 01352 708118